

**Vaughan Gething AC/AM**

**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau  
Cymdeithasol  
Cabinet Secretary for Health and Social Services**



**Llywodraeth Cymru  
Welsh Government**

Ein cyf/Our ref : MA-LVG/0867/17

Dr Dai Lloyd AC

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

19 Rhagfyr 2017

Annwyl Dai

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Rhagfyr yn gofyn imi daflu mwy o oleuni ar ddyddiad cyhoeddi arfaethedig yr adroddiad llawn gan Brifysgol Sheffield ar effaith yr isafbris uned yng Nghymru.

Bydd yr adroddiad llawn sy'n cael ei gyhoeddi gan Brifysgol Sheffield yn cynnwys dadansoddiad o'r effeithiau wedi'u modelu o wahanol isafbrisau uned (gan amrywio fesul cynyddran 5 ceiniog, o 35 ceiniog i 75 ceiniog). Ceir ynddo hefyd ddadansoddiad o'r effeithiau ehangach o gyflwyno isafbris uned, sy'n cynnwys yr effaith ar absenoldebau o'r gweithle ac ar drosedd. Bydd hefyd yn cynnwys cymhariaeth o'r cynnydd cyfrannol y byddai ei angen yn y doll ar alcohol i gyflawni'r un lefel o ostyngiad yn yr alcohol a gaiff ei yfed gan yfwyr peryglus a niweidiol, a'r marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol, fel enghraifft o isafbris uned. Erbyn hyn, bwriedir cyhoeddi'r adroddiad hwn ym mis Chwefror 2018.

Fel yr amlygwyd gan swyddogion yn y Digwyddiad Briffio Technegol ar y Bil a gynhaliwyd ar gyfer y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon (ar 25 Hydref), ac yn y llythyr a anfonais i'r Pwyllgor ar 14 Tachwedd, yn wreiddiol, bwriadwyd cyhoeddi'r adroddiad llawn ym mis Ionawr 2018. Fodd bynnag, bu oedi wrth geisio cael data gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (sy'n cael eu defnyddio i lywio'r gwaith o fodelu effaith cyflwyno isafbris uned ar drosedd). O ganlyniad, bu oedi hefyd o safbwynt Prifysgol Sheffield oherwydd nid ydynt wedi gallu diweddarau'r elfen hon ar eu gwaith modelu a dadansoddi hyd yma. Adeg y Digwyddiad Briffio Technegol, roedd swyddogion yn disgwyl y byddai data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dod i law yr wythnos honno. Yn anffodus, dim ond yn ystod yr wythnos yn dechrau 4 Rhagfyr y derbyniodd swyddogion Llywodraeth Cymru y data hyn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddwch yn gwybod, fodd bynnag, fod Prifysgol Sheffield wedi cyhoeddi adroddiad interim ar 29 Tachwedd. Gan ystyried ei fod yn canolbwyntio ar yr effeithiau iechyd y disgwylir i isafsbriaf uned eu cael, bydd yr adroddiad hwn yn hynod berthnasol wrth ichi graff ar y Bil. Mae'n diweddarau'r enghraifft o isafbris uned o 50 ceiniog a ddefnyddiwyd yn adroddiad 2014 ac sydd wedi'i chynnwys yn y Memorandwm Esboniadol. Bydd y data ychwanegol a fydd yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad llawn yn amlwg yn bwysig, ond bydd yn arbennig o berthnasol wrth osod lefel yr isafbris uned.

Rwy'n gwerthfawrogi bod gennych bryderon am sut y bydd hyn yn cyd-fynd â'ch amserlen ar gyfer cwblhau eich adroddiad. Byddaf yn sicrhau bod fy swyddogion i'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd i'r Pwyllgorau ac yn rhannu'r adroddiad llawn gan Brifysgol Sheffield cyn gynted ag y bydd wedi'i gwblhau.

Edrychaf ymlaen at ddod i'r sesiwn graffu sydd wedi'i threfnu ar gyfer 11 Ionawr.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Vaughan Gething". The signature is written in a cursive, flowing style.

**Vaughan Gething AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Cabinet Secretary for Health and Social Services